# GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (RHYDAMAN) (CYFYNGIAD AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 16) 2026

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”), drwy arfer y pwerau a roddir gan Adrannau 1(1), 2(1) i 2(3), 4, 32(1), 35 a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y’i diwygiwyd (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”), Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Mae “Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Caerfyrddin (Rhydaman) (Cyfyngiadau Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) 2004” (“y Gorchymyn Cydgrynhoi”), fel y’i hamrywiwyd wedyn, trwy hyn, yn cael ei addasu ymhellach fel petai’r cynllun rhif cyfatebol sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn yn cael ei osod yn lle’r cynllun sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn Cydgrynhoi, sydd â'r effaith o osod, ar hyd ac ochr y ffordd a nodwyd ac am y cyfnodau a nodwyd yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn, gwaharddiad ar barcio ar unrhyw adeg, ac eithrio cerbydau pobl anabl sydd wedi’u parcio yn y safle a bennir yn yr Atodlen honno ac yn arddangos bathodyn person anabl, disg parcio neu drwydded arall dilys a gyhoeddwyd gan y Cyngor, yn y safle perthnasol ac ym mhob agwedd arall, yn unol â’r Gorchymyn Cydgrynhoi.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y *** dydd o *** 2026 a'i enwi fel “Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Rhydaman) (Cyfyngiad Ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 16) 2026”.

# YR ATODLEN

## GWAHARDDIAD PARCIO
## (AC EITHRIO CERBYDAU POBL ANABL)

| **Rhan o'r Ffordd sydd wedi'i Awdurdodi i'w Defnyddio fel Man Parcio ar y Stryd** | **Man Lle Gall Cerbydau Aros** | **Nifer y Mannau Parcio** | **Diwrnodau Gweithredu'r Man Parcio** | **Oriau Gweithredu'r Man Parcio** | **Cyfnod Hwyaf y Gall Cerbydau Aros** |
|---|---|---|---|---|---|
| Y tu allan i Rhif 41 Ffordd Wernoleu, Rhydaman, SA18 2JR<br><br>Cyfeirnod Teilsen Map DM168 | Yn gyfan gwbl o fewn terfynau'r bae parcio sydd wedi'i farcio ar yr heol gan linell wen doredig. | Un | Bob Dydd | Bob Awr | Anghyfyngedig |

Gosodwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

yma ar y ** diwrnod o ** 2026

ger fy mron i,

.....................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**